# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth 08/03/2022 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (Cad) | Catrin Roberts | Gruffydd Williams | Lleucu Jones | Caren Jones |
| Mared Llywelyn Williams | Arfon Hughes | Gito Williams | Carys Roberts | Rhys Llewelyn |
| Sharon Williams | Pat Humphreys (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Alaw Llewelyn Roberts, Janice Evans a Cai Rees Jones.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Carys Roberts –Aelod o Bwyllgor Amgueddfa Forwrol Llŷn.
   Catrin Roberts – Aelod o Bwyllgor Cronfa Leol Eisteddfod Genedlaethol Boduan 2023.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 08/02/2021
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Rhys Llewelyn

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Rhodfa'r Môr, Nefyn**
   Nid yw'r gwaith o ail wynebu Rhodfa'r Môr byth wedi cychwyn er fod y clerc a'r aelod lleol wedi bod ar ôl y contractwr sawl gwaith.
   Penderfyniad: gyrru llythyr i'r contractwr yn dweud fod ganddo 30 diwrnod i wneud y gwaith neu fe fydd CTN yn terfynnu'r gytundeb.

5. **Rhestr Asedau ar gyfer yr archwiliad.**
   Yn dilyn y pwyllgor diwethaf trefnwyd cyfarfod o'r Is-bwyllgor Ariannol i greu rhestr asedau ond ni chafwyd cwrowm felly mae'r clerc wedi anfon y rhestr i bob aelod edrych arno a gyrru manylion o unrhyw eitem sydd ddim arno er mwyn iddi ei ychwanegu, fe ddarllennodd y cadeirydd y rhestr allan i bawb. Derbyniwyd mwy o eitemau gan yr aelodau ac mae'r clerc am eu ychwanegu i'r rhestr gyda amcanbris fel pris prynu gan eu bod ym meddiant CTN ers blynyddoedd. Cafwyd cais gan un o'r aelodau i roi mainc yn Cae Coch Morfa Nefyn ac ar y llecyn tir sydd ar y gongl gwaelod wrth fynd allan o Morfa Nefyn am Edern ac mae'r clerc am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd, hefyd cafwyd cais i roi mainc ym mynwent Nefyn.
   Penderfyniad: y clerc i ddiweddaru'r rhestr ar ôl y pwyllgor ac yna ei anfon i'r Cadeirydd a Cadeirydd yr Is-bwyllgor Ariannol er mwyn ceisio penderfynnu ar y pris prynnu ac yna ei anfon allan i bawb eto i gadarnhau fod bob dim arno.
   Cynnig: Gruffydd Williams    Eilio: Arfon Hughes

6. **Mynwent Morfa Nefyn –** estyniad i'r fynwent – diweddariad
   Cafwyd cyfarfod o'r Is-bwyllgor mynwentydd â'r ddau aelod lleol ym mynwent Morfa Nefyn ar y 14eg o Chwefror pryd y penderfynwyd enwebu dau aelod o CTN i gael cyfarfod hefo perchennog y tir i gael trafodaeth ynglŷn â'r pryniant er ceisio cael cyfaddawd. Trefnwyd y cyfarfod ar gyfer y 25ain

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

o Chwefror a bu trafodaeth helaeth ar y mater o ran cael tir ychwanegol i greu estynaid i'r fynwent â sicrhau llwybr saff i'r ysgol a cafwyd diweddariad gan un o'r aelodau ar beth ddigwyddodd yn y cyfarfod yma. Cyn i'r perchennog gyrraedd y cyfarfod fe wnaeth y ddau aelod fesur y llecyn tir er mwyn gweld faint o'r tir sydd angen a cytunwyd i ofyn am 25 llath sydd yn dwblu y fynwent sydd yna yn barod a cael lle i 50/60 o feddi ychwanegol, hefyd trafod y posibilrwydd o sicrhau llwybr saff i'r ysgol. Fe wrandawodd y perchennog ar hyn a cytunodd y byddai modd gwneud rhywbeth hefo'r llwybr ac addawodd gysylltu nôl gyda CTN ond hyd yn hyn nid yw wedi gwneud hynny.
Penderfyniad: rhoi mwy o amser i'r perchennog ymateb ond os nad oes ymateb wedi ei dderbyn ymhen pythefnos yna i'r clerc gysylltu hefo fo er mwyn cael ymateb cyn y pwyllgor nesaf.
Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Carys Roberts

7. **Asesiad o'r goeden sydd y tu allan i'r Llyfrgell yn Nefyn gan Luke O'Connor**
Mae'r clerc wedi anfon copi o'r asesiad i'r aelodau er mwyn iddynt gael edrych arno cyn y pwyllgor. Mae'n amlygu gwaith sydd angen ei wneud ar y goeden yn ystod y 6 mis nesaf felly nid yw wedi datgelu dim byd peryglus sydd angen gwaith ar frys ac mae'r cyflwr cyffredinol y goeden yn dda.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo 3 gontractwr lleol i gael amcanbris ganddynt i wneud y gwaith ac hefyd iddynt roi amcangyfrif o ddyddiad cychwyn y gwaith gan fod y tymor nythu yn agoshau.

8. **Siop Siarad – Hwb Cefnogaeth Cymuned Nefyn –** Cynnig gan Felin Fach
Derbyniodd y clerc lythyr gan Felin Fach yn rhoi cynnig ar gyfer sefydlu Hwb Cefnogaeth Cymunedol yn Siop Siarad Nefyn. Maent wedi cynnig swm fel rhent wythnosol sydd yn cynnwys gwres a golau ac yn bwriadu defnyddio'r adeilad ar gyfer gwasanaeth galw i mewn ar ddau ddiwrnod yr wythnos i gychwyn ac ehangu ar hyn yn ôl y galw yn y dyfodol. Mae'r clerc wedi anfon copi o les Siop Siarad i'r cadeirydd ac mae'n caniatau is-osod sef bod CTN yn cael rhoi tenantiaeth i Felin Fach ac hefyd yn caniatau i addasiadau gael ei wneud i'r adeilad os yw'r 'landlord' sef y perchennog yn fodlon. Mae'r aelod lleol wedi siarad hefo'r perchennog ac mae wedi dweud ar lafar ei fod yn fodlon ac am ysgrifennu llythyr i gadarnhau hyn. Fe fydd angen creu les newydd rhwng CTN a'r perchennog am gyfnod o 5 mlynedd ac hefyd fe fydd angen creu les o'r newydd rhwng CTN a Felin Fach gan fod CTN am is-osod iddynt sydd hefyd yn cyfyngu ar allu Felin Fach i is-osod. Mae un o'r aelodau am gysylltu hefo'r perchennog i drafod creu les newydd ac os yw yn cytuno yna CTN i gyfarwyddo cyfreithiwr penodol i wneud y les.
Penderfyniad: y cadeirydd i drefnu les newydd rhwng CTN a'r perchennog ac hefyd rhwng CTN a Felin Fach hefo cyfreithiwr CTN.
Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Sharon Williams
Pasiwyd hefyd bod cynnig Felin Fach yn dderbyniol yn ddarostyngedig i ganiatad y 'Landlord' sef y perchennog a'i fod yn fodlon i greu les newydd am gyfnod o 5 mlynedd hefo CTN.
Cynnig: Rhys Tudur    Eilio: Gruffydd Williams

9. **Railings Cae Coch –** Catrin Roberts
Cafwyd cais gan un o'r aelodau i gael railings newydd yn Cae Coch oherwydd fod y rhai sydd yna wedi plygu i gyd a golwg ofnadwy arnynt. Mae CTN wedi penderfynnu rhoi mainc ar y llecyn gwellt yno yn barod a mae dau botyn blodau yno hefyd felly fe fyddai cael railings newydd gyda dyluniad delach yn gwneud canol y pentref yn fwy deniadol. Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am y railings a cafwyd cynnig i CTN ofyn i Cyngor Gwynedd am ganiatad i gael cymeryd perchnogaeth ohonynt drosodd ac iddynt drosglwyddo y cyfrifoldeb amdanynt i CTN.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn os ydynt yn fodlon i CTN gael perchnogaeth o'r railings a'r llecyn gwellt yn Cae Coch i gyd.
Cynnig: Catrin Roberts Eilio: Gito Williams

**10. Adroddiad Monitro Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Gwynedd –** Cadeirydd

Mae adolygiad o bolisiau cynlllunio Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar adroddiadau monitro blynyddol sydd yn cynnwys dangosyddion sy'n sgorio os ydi'r polisiau yma yn gweithio ac yn cyrraedd y strategaethau. Mae pob un o'r dangosyddion sydd yn gweld faint o effeithiol ydi polisiau cynllunio Cyngor Gwynedd yn dweud nad oes angen newid dim byd arnynt ac hefyd wedi sgorio bod y polisiau yma i gyd yn atgyfnerthu'r Iaith Gymraeg lle mae pawb yn gwybod bod cwymp o un cyfrifiad i'r llall o ran nifer o siaradwyr Cymraeg. Y cynnig yw i CTN anfon llythyr i Cyngor Gwynedd yn dweud fod CTN yn anhapus hefo'r broses o fonitro polisiau ac yn gweld eu bod yn sgorio pethau yn eithaf anaeddfed yn enwedig pan maent yn dweud nad oes angen newid dim un polisi ac felly yn teimlo nad ydynt yn gwerthuso eu polisiau yn effeithiol.
Penderfyniad: Pasiwyd y cynnig i lythyru Cyngor Gwynedd ac hefyd fel ychwanegiad i'r cynnig i yrru'r llythyr i'r cynghorau cymuned a thref hefyd.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Sharon Williams

**11. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

- **Ebost Rhug Estate –** Cytiau Clogwyn Nefyn

Derbyniodd y clerc ebost gan Rhug Estate yn dweud eu bod wedi gwneud arolwg tirlithriad ar y tir mae Lord Newborough yn berchen ar y traeth yn Nefyn ac yn dilyn hyn bod Lord Newborough wedi penderfynnu gwerthu y tir ac felly ni fydd caniatad i unrhyw un fod a cwt ar dir Lord Newborough o hyn allan. Ebostiodd y clerc yn ôl yn gofyn am gopi o'r arolwg ac hefyd cynllun yn dangos yn union pa ran o'r traeth mae Lord Newborough yn berchen ac wedi iddi dderbyn y rhain fe anfonodd nhw i'r aelodau. Ar ôl darllen yr arolwg mae aelodau CTN yn teimlo bod cyfrifoldeb arnynt i ranu'r arolwg yma hefo Cyngor Gwynedd oherwydd fod y mater yma wedi bod yn bryder mawr yn yr ardal.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Un Llais Cymru i gael arweiniad ar ranu'r arolwg yma ac os yw'r ateb yn ffafriol yna ei yrru i Cyngor Gwynedd.
Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Gruffydd Williams

**12. Ceisiadau am gyfraniad ariannol**

- **Ambiwlans Awyr Cymru –** Cais am gyfraniad ariannol
  Penderfyniad: Rhoi cyfraniad o £600.00 iddynt.
  Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Sharon Williams
- **Amgueddfa Forwrol Llŷn –** Cais am gyfraniad ariannol
  Penderfyniad: Gofyn iddynt os oes ganddynt wariant arbennig mewn sylw.
  Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Sharon Williams
- **Marie Curie –** Cais am gyfraniad ariannol
  Penderfyniad: Peidio rhoi cyfraniad.
- **Dawns i Bawb –** Cais am gyfraniad ariannol
  Penderfyniad: Rhoi cyfraniad o £250.00 iddynt.
  Cynnig: Rhys Tudur Eilio: Sharon Williams
- **O Ddrws i Ddrws –** Cais am gyfraniad ariannol

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Rhys Tudur – 07825 129737

Penderfyniad: Rhoi cyfraniad o £500.00 iddynt.
Cynnig: Gruffydd Williams   Eilio: Rhys Llewelyn

- **NHS Charities Together –** Cais am gyfraniad ariannol
  Penderfyniad: Peidio rhoi cyfraniad.
- **Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 –** Cais am gyfraniad ariannol
  Penderfyniad: Rhoi cyfraniad o £1500.00
  Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Mared Llywelyn Williams
- **Cylch Meithrin Edern –** Cais am gyfraniad ariannol
  Penderfyniad: Rhoi cyfraniad o £1500.00.
  Cynnig: Gruffydd Williams   Eilio: Sharon Williams

**13. Ceisiadau Cynllunio**

**C22/0139/42/LL –** Bryn Gwynt, Mynydd Nefyn – Estyniad ochr a cefn.
Penderfyniad: Cefnogi.
Cynnig: Rhys Tudur   Eilio: Arfon Hughes

Ceisiadau Diweddarach
**C21/1220/42/LL** – Morlais Lôn Penrallt, Nefyn – Dymchwel tŷ presennol a chodi tŷ newydd yn ei le ynghŷd â gwaith i sefydlogi clogwyni.
Penderfyniad: Gwrthod gan ddefnyddio'r un rhesymau a'r cais gwreiddiol.
Cynnig: Sharon Williams   Eilio: Carys Roberts
**C22/0106/42/LL –** Rhos Bryn Glas, Nefyn – Adeiladu anecs yn yr ardd.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Arfon Hughes   Eilio: Carys Roberts
**C22/0190/42/LL –** Caeau Capel Hotel, Rhodfa'r Môr, Nefyn – Newid defnydd ystafelloedd gwesty (dosbarth defnydd C1) i lety hunan gynhaliol (dosbarth defnydd C3).
Penderfyniad: Gwrthod – gormodedd o unedau gwyliau yn yr ardal.
Cynnig: Rhys Llewelyn   Eilio: Carys Roberts
**C22/0197/42/DT –** 12 Llwyn Gwalch, Morfa Nefyn – Estyniad i fodurdy presennol.
Penderfyniad: Gwrthod – gor-ddatblygiad o'r safle.
Cynnig: Rhys Tudur   Eilio: Sharon Williams

**14. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1035.49
- Nefyn Foods – Rent Siop Siarad - £780.00
- Canolfan Ffensio a Melin Goed Glasfryn – Coeden Nadolig Morfa Nefyn - £224.40
- John Gwynfor Jones – Angladd Robert Jones Evans - £400.00
- Luke O'Connor – Asesiad ar y goeden sydd y tu allan i'r Llyfrgell yn Nefyn - £150.00
- Snowdonia Fire & Security – Cynnal a Chadw'r larwm - £111.38
- Cliff Hughes – Taliad 10 cytundeb llwybrau - £1075.00
- D. M. Parry – Gwaith ychwanegol ym mynwent Nefyn - £520.00

- Treth Dŵr Llyfrgell Nefyn - £559.17
- Aelodaeth Un Llais Cymru - £548.00
- Colin Dobson – Trafnidiaeth Angor Nefyn - £150.00
- G. Williams – Sylfaen yr Angor - £810.00
- N Power – Trydan Llyfrgell mis Mawrth – £176.25

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Rhys Llewelyn  Eilio: Sharon Williams

**15. Taliadau wedi eu derbyn**

- Cyngor Gwynedd – Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus - £2757.62